Cynulliad Cenedlaethol Cymru
**Senedd Ymchwil**

# Yr Wybodaeth Ddiweddaraf am Adael yr Undeb Ewropeaidd
Briff Ymchwil

Hydref 2018



www.cynulliad.cymru/ymchwil

Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru, i gytuno ar drethi yng Nghymru, ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r ddogfen hon ar wefan y Cynulliad Cenedlaethol:
**www.cynulliad.cymru/ymchwil**

Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:

**Senedd Ymchwil**
**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
**Tŷ Hywel**
**Bae Caerdydd**
**CF99 1NA**

Ffôn: **0300 200 6317**
E-bost: **Nigel.Barwise@Cynulliad.Cymru**
Twitter: **@SeneddYmchwil**
Blog: **SeneddYmchwil.blog**

**© Hawlfraint Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2018**
Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difrïol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
**Senedd Ymchwil**

# Yr Wybodaeth Ddiweddaraf am Adael yr Undeb Ewropeaidd

## Briff Ymchwil

Hydref 2018

**Awdur:** Nigel Barwise
**Dyddiad:** 16 Hydref 2018
**Rhif y papur:** 18-056

# Cynnwys


**Cyflwyniad .......... 1**

**Datblygiadau yng Nghymru .......... 2**

Cynulliad Cenedlaethol Cymru .......... 2

Llywodraeth Cymru .......... 4

Newyddion .......... 5

**Datblygiadau yn yr UE .......... 6**

Y Cyngor Ewropeaidd .......... 6

Y Comisiwn Ewropeaidd .......... 6

Senedd Ewrop .......... 6

Newyddion .......... 7

**Datblygiadau yn y Deyrnas Unedig .......... 8**

Llywodraeth y DU .......... 8

Tŷ'r Cyffredin .......... 9

Pwyllgorau .......... 9

Yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig: .......... 9

Ymadael â'r UE: .......... 9


**Yr Wybodaeth Ddiweddaraf am Adael yr Undeb Ewropeaidd:** Briff Ymchwil


Materion Cartref: .......... 9

Gweithdrefn: .......... 10

Cyfrifon Cyhoeddus: .......... 10

Materion yr Alban: .......... 10

Y Pwyllgor Materion Cymreig: .......... 10

Tŷ'r Arglwyddi .......... 10

Pwyllgorau .......... 10

Is-bwyllgor Ynni ac Amgylchedd yr UE: .......... 10

Is-bwyllgor Materion Ariannol yr UE: .......... 10

Is-bwyllgor Materion Cartref yr UE: .......... 11

Is-bwyllgor Marchnad Fewnol yr UE: .......... 11

Newyddion .......... 11

**Yr Alban .......... 13**

Senedd yr Alban .......... 13

Llywodraeth yr Alban .......... 13

**Gogledd Iwerddon .......... 15**

**Y berthynas rhwng y Deyrnas Unedig ac Iwerddon .......... 16**

**Adroddiadau a gyhoeddwyd....................................................................16**

Llyfrgelloedd Tŷ'r Cyffredin a Thŷ'r Arglwyddi....................16

The Conversation....................16

UK in a Changing Europe....................17

(LSE Brexit)....................17

Arall....................18



# Cyflwyniad

Mae'r papur hwn yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am y datblygiadau sy'n berthnasol i Gymru o ran gadael yr Undeb Ewropeaidd. Mae'n cynnwys adrannau ar waith y Cynulliad a Llywodraeth Cymru; ar lefel yr Undeb Ewropeaidd; y Deyrnas Unedig; yr Alban ac Iwerddon. Mae'n ymdrin â'r cyfnod rhwng 26 Medi a 9 Hydref 2018, er y cyfeirir at ddigwyddiadau diweddarach os daw gwybodaeth i law wrth baratoi'r drafft terfynol.

# Datblygiadau yng Nghymru

## Cynulliad Cenedlaethol Cymru

**Y Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol**

*Y Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol yw prif bwyllgor y Cynulliad ar gyfer cydgysylltu gweithgareddau'r Pwyllgorau sy'n gysylltiedig â gadael yr Undeb Ewropeaidd.*

Mae'r Pwyllgor hyn cynnal ymchwiliad ar hyn o bryd i **Berthynas Cymru ag Ewrop a'r byd yn y dyfodol - rhan dau** ac ymchwiliad i **Gyfraith yr UE yng Nghymru: Beth fydd yn digwydd yn ystod cyfnod pontio Brexit?**

Dyma sesiynau diweddaraf y Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol:

- 1 Hydref: Cafodd y pwyllgor dystiolaeth gan Syr Emyr Jones Parry, Auriol Miller a Walter May am berthynas Cymru ag Ewrop a'r byd yn y dyfodol - rhan dau. **Trawsgrifiad.**
- 8 Hydref: Cynhaliodd y pwyllgor dair sesiwn dystiolaeth ar Baratoi ar gyfer Brexit gyda chynrychiolwyr y sectorau porthladdoedd, iechyd a bwyd.
- 11 Hydref: Cynhaliodd y pwyllgor sesiwn graffu gyda Robin Walker AS, yr Is-Ysgrifennydd Gwladol Seneddol ar gyfer Ymadael â'r UE.

Ar 1 Hydref trafododd y Pwyllgor ohebiaeth gan:

- **Mick Antoniw, Cadeirydd y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol at Lesley Griffiths, Ysgrifennydd y Cabinet dros Ynni, Cynllunio a Materion Gwledig ynghylch Bil Amaethyddiaeth Llywodraeth y DU.**

Ar 8 Hydref trafododd y Pwyllgor ohebiaeth gan:

- **Mark Drakeford, Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid, at Llyr Gruffydd, Cadeirydd Dros Dro'r Pwyllgor Cyllid ynghylch cyllideb ddrafft 2019-20**.

**Arall**

25 Medi: Datganiad Ysgrifenedig - **Lansio Porth Brexit Busnes Cymru.**



**Yr Wybodaeth Ddiweddaraf am Adael yr Undeb Ewropeaidd:** Briff Ymchwil

2 Hydref: Datganiad gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid: **Cyllideb ddrafft 2019-20**.

2 Hydref: Datganiad Ysgrifenedig - **Cyllideb Ddrafft 2019-20 - Cyllideb i greu Cymru well.**

3 Hydref: Dadl ar **Bleidlais y Bobl.**

25 Hydref: Fforwm rhyngseneddol ar Brexit yng Nghaerdydd.

Cyhoeddir blogiau'r Gwasanaeth Ymchwil yn **Pigion.** Y blogiau diweddaraf yn ymdrin â Brexit yw: **Beth yw'r camau nesaf ar gyfer buddsoddi rhanbarthol yng Nghymru?; Gofyn i'r Cynulliad newid gweithdrefnau ar gyfer deddfwriaeth yn ymwneud ag ymadael â'r UE; Beth sydd mewn enw? Mae'r dyfodol yn aneglur ar ôl Brexit gyfer enwau bwyd a ddiogelir yng Nghymru; Beth mae Bil Amaethyddiaeth y DU yn ei olygu i Gymru?; Adroddiad Monitro Brexit- Yr Amgylchedd Medi 2018; Yr hyn a fydd yn disodli frydiau cyllido'r UE: Yr achos dros gyllid yn y dyfodol i Gymru;**

Ar 25 Medi cyhoeddodd y Pwyllgor Cyllid adroddiad, sef **Paratoadau ar gyfer disodli ffrydiau cyllido'r Undeb Ewropeaidd yng Nghymru**. Roedd yr adroddiad yn cynnwys 11 o argymhellion, gan gynnwys argymhellion mewn meysydd allweddol fel sicrhau na fydd Cymru 'geiniog ar ei cholled' ar ôl Brexit, ac ariannu a datganoli ffynonellau cyllid mawr ar ôl Brexit fel Cronfa Ffyniant Gyffredin y DU a chymorth ariannol i amaethyddiaeth.

Cyhoeddodd y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Materion Gwledig ei adroddiad ar fframweithiau cyffredin y DU ar gyfer amaethyddiaeth a'r amgylchedd ym mis Gorffennaf 2018. **Ymatebodd** Llywodraeth Cymru i adroddiad y Pwyllgor ym mis Medi 2018. Cyhoeddodd y Pwyllgor ei adroddiad ar **Drefniadau llywodraethu amgylcheddol ac egwyddorion amgylcheddol ar ôl Brexit** ar 27 Mehefin, ac **ymatebodd** Llywodraeth Cymru iddo ym mis Medi 2018. Mae'r Pwyllgor hefyd wedi ymateb i ymgynghoriad Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig, sef ***'Health and Harmony: the future for food, farming and the environment in a Green Brexit'.*** Ar hyn o bryd mae'r Pwyllgor yn drafftio ei adroddiad ar ei ymchwiliad i **Effeithiau Brexit ar Bysgodfeydd yng Nghymru**, ar ôl cynnal **sesiwn dystiolaeth ffurfiol** a gweithdy i randdeiliaid ym mis Gorffennaf, ac mae wedi **cyhoeddi'r dystiolaeth ysgrifenedig a ddaeth i law**.

Mae'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg yn cynnal **ymchwiliad** i **Effaith Brexit ar Addysg Uwch ac Addysg Bellach**. Mae'r Pwyllgor wedi gorffen clywed y dystiolaeth lafar yn ddiweddar, ar ôl cynnal sesiynau ar 12 Gorffennaf (**trawsgrifiad**), 18 Gorffennaf (**trawsgrifiad**) ac 20 Medi (**trawsgrifiad)**. Mae hefyd **wedi cyhoeddi'r dystiolaeth ysgrifenedig a ddaeth i law.**

Mae'r Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol yn cyhoeddi adroddiadau ar Is-ddeddfwriaeth yn ymwneud â gadael yr Undeb Ewropeaidd. Maent i'w gweld ar **dudalennau gwe'r Pwyllgor.** Cyhoeddodd y Pwyllgor **ei adroddiad** ar **Bwerau ym Mil yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) i wneud is-ddeddfwriaeth – materion gweithredol** ym mis Gorffennaf 2018, ac **ymatebodd Llywodraeth Cymru** iddo ym mis Medi 2018. Ar 8 Hydref cyhoeddodd y pwyllgor ei adroddiad **Craffu ar reoliadau a wneir o dan y Bil Masnach.**

## Llywodraeth Cymru

24 Medi: Datganiad Ysgrifenedig - **Dros £25 miliwn bellach wedi'i ymrwymo i helpu busnesau a gwasanaethau cyhoeddus Cymru i baratoi ar gyfer Brexit**.

24 Medi: **Lansio ap i gefnogi busnesau bwyd a diod o Gymru ar ôl Brexit.**

25 Medi: **Porthol Brexit newydd i gefnogi busnesau.**

26 Medi: **£3 miliwn rhagor i helpu pysgodfeydd, yr amgylchedd a'r diwydiant bwyd i baratoi ar gyfer Brexit.**

27 Medi: **£2.7 miliwn o arian yr UE i helpu busnesau cymdeithasol yng Nghymru.**

29 Medi: **Rhaid i Brif Weinidog y DU roi'r gorau i gamarwain y cyhoedd â honiadau am Brexit nad ydynt yn wir** - Prif Weinidog Cymru, Carwyn Jones, yn rhoi rhybudd llym i Theresa May wrth i'r dyddiad y byddwn yn gadael yr UE yn agosáu.

4 Hydref: **Cyllid o £119 miliwn gan yr UE i ddatblygu Metro De Cymru.**

8 Hydref: **Cychwyn prosiect meincnodi i helpu'r sector cig coch i baratoi ar gyfer Brexit** - Mae prosiect newydd gwerth £2.15m i helpu ffermwyr eidion a defaid i weld sut y gallen nhw wella'u busnesau a pharatoi ar gyfer Brexit yn dechrau heddiw.



**Yr Wybodaeth Ddiweddaraf am Adael yr Undeb Ewropeaidd:** Briff Ymchwil

## Newyddion

25 Medi: **Ffermwyr tenant yng Nghymru yn ystyried y goblygiadau posibl sydd ynghlwm wrth gynigion Llywodraeth Cymru** (NFU Cymru)

25 Medi: **Byddai gadael yr UE heb gytundeb yn drychinebus i amaethyddiaeth yng Nghymru** - Mae awgrymiadau y gallai gymryd o leiaf chwe mis i'r UE gymeradwyo'r DU fel allforiwr ac, yn ystod y cyfnod hwnnw, ni fyddai'r UE yn derbyn anifeiliaid a chynhyrchion anifeiliaid o'r DU (NFU Cymru)

27 Medi: **Rhaid i bolisi Llywodraeth Cymru yn y dyfodol sicrhau cyflenwad parhaus o Gig Eidion a Chig Oen PGI Cymru.** (NFU Cymru)

1 Hydref: **Brexit a chyllid i Gymdeithas Sifil yng Nghymru – Y daith hyd yma a ble rydym arni nawr** (WCVA)

1 Hydref: **Senedd y DU am bennu dyfodol polisi amaethyddol y DU am y tro cyntaf mewn cenhedlaeth** (Cymdeithas y Ffermwyr Tenant)

4 Hydref: **2il ddarlleniad y Bil Amaethyddiaeth: mae angen manylion yn awr ynghylch y cyllid hirdymor, meddai'r CLA.**

8 Hydref: **Amser perffaith i'r Llywodraeth fynd i'r afael â'r problemau sy'n wynebu ffermwyr tenant ers tro,** (Cymdeithas y Ffermwyr Tenant)

8 Hydref: **Aelodau NFU Cymru Meirionnydd yn cyfarfod yn ddiweddar i drafod ymgynghoriad 'Brexit a'n Tir'.**

8 Hydref: **Mae NFU Cymru yn croesawu Prosiect Meincnodi Cig Coch.**

# Datblygiadau yn yr UE

## Y Cyngor Ewropeaidd

27 Medi: **Anerchiad gan yr Arlywydd Donald Tusk i 73ain Cynulliad Cyffredinol y Cenhedloedd Unedig.**

1 Hydref: **Diogelu ffermwyr rhag arferion masnachu annheg: y Cyngor yn cytuno ar ei safbwynt negodi.**

4 Hydref: **Sylwadau gan yr Arlywydd Donald Tusk ar ôl ei gyfarfod â'r Taoiseach Leo Varadkar.**

9 Hydref: **Y newid yn yr hinsawdd: y Cyngor yn derbyn y casgliadau.**

9 Hydref: Ymgynghoriad: ***EU single window environment for customs*** (daw i ben 16 Ionawr)

## Y Comisiwn Ewropeaidd

Mae'r Comisiwn wedi cyhoeddi 66 o '**Nodiadau parodrwydd ar gyfer Brexit**' yn ymdrin â'r goblygiadau cyfreithiol ac ymarferol sydd ynghlwm wrth ymadawiad y Deyrnas Unedig â'r Undeb Ewropeaidd – yn amodol ar unrhyw drefniant pontio a allai gael ei gynnwys mewn cytundeb ymadael posibl.

26 Medi: **Datganiad ar y cyd am y Cyfarfod Tairochrog rhwng Gweinidogion Masnach yr Unol Daleithiau, Japan, a'r Undeb Ewropeaidd.**

27 Medi: **Canada a'r Undeb Ewropeaidd yn cynnal cyfarfod cyntaf Cyd-bwyllgor CETA.**

3 Hydref: **Araith gan Is-Lywydd Ansip yng nghyfarfod llawn Senedd Ewrop yn ystod y ddadl ar Ddyfodol Ewrop gyda Phrif Weinidog Estonia, Jüri Ratas.**

4 Hydref: **Llys Archwilwyr Ewrop yn llofnodi cyfrifon yr UE am yr unfed tro ar ddeg yn olynol.**

## Senedd Ewrop

26 Medi: Ymchwil ar gyfer Pwyllgor TRAN - **BREXIT: trafnidiaeth a thwristiaeth – y canlyniadau os na fydd cytundeb.**



**Yr Wybodaeth Ddiweddaraf am Adael yr Undeb Ewropeaidd:** Briff Ymchwil

26 Medi: **Cyllideb yr UE 2019: Aelodau Senedd Ewrop yn cynyddu cyllid ar gyfer ieuenctid, ymfudo a gwaith ymchwil.**

14 Hydref: Y **Cyfarfod Llawn yn Strasbourg (7-10 Hydref).** Dyma'r agenda:

- Paratoi ar gyfer cyfarfod y Cyngor Ewropeaidd (18 a 19 Hydref 2018), datganiadau gan y Cyngor a'r Comisiwn
- Dadl gyda Phrif Weinidog Estonia, Jüri Ratas, ar Ddyfodol Ewrop.

1 Hydref: **Cadwyn cyflenwi bwyd decach: ASEau Amaethyddiaeth yn gwahardd masnachu annheg.**

2 Hydref: **Trafodaethau uwchgynhadledd yr Undeb Ewropeaidd ym mis Hydref yn canolbwyntio ar Brexit ac ymfudo.**

3 Hydref: **Cytuno i newid trefniadau TAW i symleiddio'r system ac atal twyll.**

9 Hydref: **Cyllideb yr UE ar gyfer 2019yn canolbwyntio ar bobl ifanc.**

## Newyddion

Gwefannau Saesneg yn ymdrin â pharatoi ar gyfer Brexit:

- ***Are you ready for BREXIT?*** (Siambrau Masnach yr Almaen)
- **Gwefannau Brexit llywodraeth yr Iseldiroedd.**

26 Medi: **Ffrainc yn dweud y byddai'n angeuol' derbyn cynigion Brexit Theresa May** (Business Insider)

2 Hydref: Tra bydd y broses o batatoi ar gyfer ymadawaid y DU â'r Undeb Ewropeaidd yn parhau [Asiantaeth Diogelwch Hedfan Ewrop (EASA)] **bydd EASA yn dechrau prosesu rhai ceisiadau i sicrhau cymeradwyaeth Trydedd Wlad gan gwmnïau o'r DU sydd wedi'u cymderadwyo eisoes .**

4 Hydref: **Adroddiadau blynyddol yn ymwneud â blwyddyn ariannol 2017** (Llys Archwilwyr Ewrop) **Crynodeb o Archwiliad yr UE .**

# Datblygiadau yn y Deyrnas Unedig

## Llywodraeth y DU

24 Medi: Y wybodaeth ddiweddaraf: **Sut i baratoi os bydd y DU yn gadael yr UE heb gytundeb.**

- **Allforio anifeiliaid a chynhyrchion anifeiliaid os na fydd cytundeb Brexit:** Byddai'n ofynnol i'r DU fod yn drydedd wlad restredig yn ôl rheolau'r UE. Er ei bod yn annhebygol y bydd y DU yn gadael heb gytundeb, pe bai hynny'n digwydd, byddai'n gwneud cais am y statws hwn ond nid oes sicrwydd ynglŷn â'r amserlen na sut y byddai'r UE yn ymateb. Heb statws rhestredig ni fyddai modd allforio unrhyw beth i'r UE.
- **Cynhyrchu cynhyrchion bwyd a ddiogelir gan 'ddynodiad daearyddol' (GI) os na fydd cytundeb Brexit:** Mae Llywodraeth y DU yn disgwyl i holl ddynodiadau daearyddol y DU barhau i gael eu diogelu gan gynllun yr UE. Fodd bynnag, os na fydd hynny'n digwydd, er mwyn i gynhyrchwyr yn y DU sydd am barhau i gael eu diogelu gan ddynodiad daearyddol yr UE, a chael yr hawl i ddefnyddio logo dynodiad daearyddol yr UE, byddai'n rhaid iddynt wneud cais i'r Comisiwn Ewropeaidd fel cynhyrchwyr 'trydedd wlad'.
- **Cludo nwyddau masnachol yn yr UE os na fydd cytundeb Brexit:** Dylai cwmnïau cludo nwyddau ystyried a oes angen trwydded arnynt i gludo nwyddau'n rhyngwladol. Mae hyd at 984 o drwyddedau blynyddol Euro 6 ECMT(Cynhadledd Gweinidogion Trafnidiaeth Ewrop), hyd at 2,592 o drwyddedau misol Euro 6 ECMT a 240 o drwyddedau misol Euro 5 ECMT ar gael.. … Disgwyliwn y bydd y galw am drwyddedau ECMT yn sylweddol uwch na'r nifer a fydd ar gael.
- **Rheoleiddio cemegau (REACH) os na fydd cytundeb Brexit:** Cynnal neu sicrhau mynediad i'r farchnad yr Ardal Economaidd Ewropeaidd … Er enghraifft, byddai angen i gyrff yn y DU sydd wedi'u cofrestru eisoes, drosglwyddo eu cofrestriad i endid priodol yn yr AEE (fel corff cyswllt neu unig gynrychiolydd) neu ddatblygu cysylltiadau gwaith newydd â'u cwsmeriaid yn yr AEE. Byddai angen cymryd camau cyn i'r DU adael yr UE.





- **Hedfan yn ôl ac ymlaen o'r DU os na fydd cytundeb Brexit**: Yn y sefyllfa hon, mae'r DU yn rhagweld y byddai'n caniatáu i gwmnïau hedfan yr UE barhau i weithredu yn y DU. Byddem yn disgwyl i wledydd yr Undeb Ewropeaidd weithredu yn yr un modd. Ni fyddai o fudd i unrhyw wlad yn yr UE na'r DU gyfyngu ar y cyrchfannau y gellid hedfan iddynt ond, os bydd hynny'n digwydd, bydd yn effeithio ar rai gwasanaethau.

24 Medi: **Cyfarfod rhwng y Prif Weinidog Theresa May a Guy Verhofstadt ASE.**

26 Medi: **Araith Prif Weinidog y DU yn Fforwm Busnes Byd-eang Bloomberg.**

26 Medi: **Cyfarfod rhwng Dominic Raab a'r Prif Weinidog Fabian Picardo i drafod sut y byddwn yn gweithio gyda Gibraltar i sicrhau'r canlyniad gorau bosibl o ran Brexit.**

4 Hydref: **Datganiad ar y cyd gan y Prif Weinidog Theresa May a'r Prif Weinidog Rutte.**

4 Hydref: **Ymgynghoriad ynghylch sefydlu cynlluniau Dynodiad Daearyddol y DU (GI) ar ôl gadael yr UE**- daw i ben 1 Tachwedd (DEFRA)

## Tŷ'r Cyffredin

9 Hydref: Datganiad gan Dominic Raab am **y trafodaethau yngylch gadael yr UE.**

## Pwyllgorau

### Yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig:

17 Hydref: Sesiwn Dystiolaeth - Craffu ar y Bil Amaethyddiaeth.

### Ymadael â'r UE:

10 Hydref: **Archwilio paratoadau ar gyfer Brexit a chynlluniau wrth gefn ar gyfer busnesau.**

### Materion Cartref:

9 Hydref: **Y Pwyllgor Cynghori ar Ymfudo yn trafod yr adroddiad ar ymfudo o fewn yr AEE.**

### Gweithdrefn:

10 Hydref: Sesiwn dystiolaeth gyda Gweinidogion ynghylch Papur Gwyn y Llywodraeth, Deddfu ar gyfer y Cytundeb Ymadael ac ynghylch Bil yr Undeb Ewropeaidd (Cytundeb Ymadael) arfaethedig.

### Cyfrifon Cyhoeddus:

2 Hydref: Gohebiaeth Jon Thompson, HMRC ar y **Gwasanaeth Datgan Tollau.**

15 Hydref 2018: Sesiwn Dystiolaeth - Ymadael â'r Undeb Ewropeaidd: Defra.

### Materion yr Alban:

15 Hydref: Sesiwn Dystiolaeth ar yr Alban a Brexit: Buddsoddiad Masnachol a Thramor.

### Y Pwyllgor Materion Cymreig:

16 Hydref: Sesiwn dystiolaeth ar Brexit, masnach a thollau: y goblygiadau i Gymru.

## Tŷ'r Arglwyddi

9 Hydref: Darlleniad cyntaf **Bil y Ddeddf Uno.**

9 Hydref: Datganiad am **drafodaethau Brexit**

## Pwyllgorau

### Is-bwyllgor Ynni ac Amgylchedd yr UE:

10 Hydref: **Holi'r Gweinidog ynghylch lefelau nitradau yn afonydd y DU**.

17 Hydref: **Archwilio parodrwydd Defra os bydd y DU yn gadael yr UE heb gytundeb.**

23 Hydref: **Holi'r Gweinidog ynghylch parodrwydd BEIS os bydd y DU yn gadael yr UE heb gytundeb.**

### Is-bwyllgor Materion Ariannol yr UE:

10 Hydref: **Gweinidog y Ddinas yn rhoi tystiolaeth am wasanaethau ariannol ar ôl Brexit.**





17 Hydref: Sesiwn Dystiolaeth ar Brexit: Banc Buddsoddi Ewrop.

### Is-bwyllgor Materion Cartref yr UE:

9-10 Hydref: Ymweliad yr Is-bwyllgor â Brwsel.

### Is-bwyllgor Marchnad Fewnol yr UE:

11 Hydref: **Trefniadau sector rheilffyrdd y DU-UE yn y dyfodol.**

18 Hydref: Sesiwn dystiolaeth ar drefniadau trafnidiaeth y DU-UE yn y Dyfodol.

## Newyddion

17 Medi: **David Owen yn tynnu sylw at y ffaith bod Prif Weinidog y DU yn cael cyngor anghywir ynghylch manylion Cytundeb yr AEE** (Yr Arglwydd Owen)

24 Medi: **Mae'r cynlluniau ar gyfer gadael yr UE heb gytundeb yn siŵr o arwain at anhrefn** (Road Haulage Association)

26 Medi: **Llys uchaf masnach y byd mewn traffertion wrth i'r Unol Daleithiau wrthwynebu barnwr arall (**Reuters)

26 Medi: **Y DU yn penodi gweinidog cyflenwadau bwyd rhag ofn na fydd cytundeb Brexit** (Guardian)

26 Medi: **Cynnig mewnfudo'r Llywodraeth yn niweidiol i'r diwydiant cludo nwyddau** (Road Haulage Association)

27 Medi: **Os bydd y DU yn gadael yr UE heb gytundeb, bydd yn costio $12 biliwn mewn tariffau bwyd, yn ôl un astudiaeth** (Bloomberg)

28 Medi: **Dim ond chwe mis nes byddwn yn gadael yr UE: yn ôl arolwg newydd gan Siambr Fasnach Prydain, bydd llai o fuddsoddi a bydd yn anoddach recrwitio os na fydd cytundeb** - Bydd un o bob pump o'r busnesau a holwyd (21%) yn buddsoddi llai os na fydd cytundeb, bydd 20% yn symud eu busnes, neu ran o'u busnes, i'r UE a bydd 18% yn recriwtio llai - ond mae'r ffigurau hyn yn gostwng yn sylweddol os bydd cyfnod pontio a phethau'n aros yr un fath. Nid yw 62% o gwmnïau wedi cwblhau asesiad risg Brexit eto. (Siambr Fasnach Prydain)

28 Medi: **Os na fydd cytundeb Brexit, mae'n bosibl y bydd anhrefn ar y ffyrdd am 14 diwrnod, yn ôl Highways England** - Yn dilyn cais rhyddid gwybodaeth, cafwyd gwybod y bydd cynllun traffig lorïau Swydd Caint yn cymryd pythefnos i'w roi ar waith (Guardian)

1 Hydref: **Mae gwneuthurwyr y DU yn cwtogi eu cynlluniau gwariant wrth i bryderon am Brexit gynyddu** - dim ond un o bob tri chwmni sy'n disgwyl buddsoddi rhagor yn ôl un adroddiad (Guardian)

2 Hydref: **Peidiwch â thynnu'r tir o dan draed diwydiant cludo nwyddau'r DU, meddai RHA.**

4 Hydref: **Nissan yw'r cwmni diweddaraf i rybuddio rhag Brexit caled** – Mae Nissan, y cwmni cynhychu ceir o Japan, wedi rhybuddio'r llywodraeth y bydd yn niweidiol iawn i'w ffatri cynhyrchu ceir enfawr yng ngogledd-ddwyrain Lloegr os na fydd y DU yn sicrhau cytundeb gyda'r UE sy'n osgoi Brexit caled.

4 Hydref: **Brexit: Yr heriau sy'n wynebu porthladdoedd llongau fferi sy'n croesi'r Sianel** (Maritme Executive)

8 Hydref: **Arolwg Economaidd Chwarterol BCC: ansicrwydd yn dilyn arolwg sy'n dangos bod economi y DU yn sefyll yn ei hunfan.**

8 Hydref: **Corff amddiffyn yn annog Hammond i gynllunio ar gyfer argyfwng os na fydd cytundeb Brexit** - Mae'n bosibl y bydd angen cyflwyno mesurau brys i osgoi argyfwng llif arian yn y byd gweithgynhyrchu os bydd y DU yn gadael yr UE heb gytundeb, yn ôl llythyr a welodd Sky News.





# Yr Alban

## Senedd yr Alban

Y wybodaeth ddiweddaraf am yr hyn sy'n digwydd yn Senedd yr Alban mewn perthynas â gadael yr Undeb Ewropeaidd: 4 Hydref.

Canolfan Wybodaeth Senedd yr Alban: **Paratoi ar gyfer Brexit heb gytundeb: safonau amgylcheddol; Paratoi ar gyfer Brexit heb gytundeb - caffael cyhoeddus; Atal y pydredd? Cynllun peilot gweithwyr amaethyddol tymhorol y DU; Paratoi ar gyfer Brexit heb gytundeb: gyrru yn yr UE ac yswirio cerbydau; Paratoi ar gyfer Brexit heb gytundeb: arian yr UE; Brexit a denu ymfudwyr i'r Alban a'u cadw.**

25 Medi: Y Pwyllgor Amgylchedd, Newid Hinsawdd a Diwygio Tir: Deddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018. - **Ionising Radiation (Basic Safety Standards) (Miscellaneous Provisions) (Amendment) (EU Exit) Regulations 2018**.

25 Medi: Dadl ar **Drefniadau Masnach y DU: Rôl yr Alban.**

26 Medi: Datganiad ar y **Polisi Amaethyddol Cyffredin.**

26 Medi: Dadl ar y **Gymuned Ynni Atomig Ewropeaidd (Effeithiau Ymadael).**

26 Medi: Y Pwyllgor Iechyd a Chwaraeon: Deddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018 - **Tobacco Products and Nicotine Inhaling Products (Amendment) (EU Exit) Regulations 2018**.

2 Hydref: Pwyllgor yr Economi, Ynni a Gwaith Teg: Deddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018 - **Insolvency (Amendment etc) (EU Exit) Regulations 2018**.

2 Hydref: Y Pwyllgor Iechyd a Chwaraeon: Deddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018 - **Human Tissue (Quality and Safety for Human Application) (Amendment) (EU Exit) Regulations; Quality and Safety of Organs Intended for Transplantation (Amendment) (EU Exit) Regulations; Blood Safety and Quality (Amendment) (EU Exit) Regulations**.

## Llywodraeth yr Alban

26 Medi: **Effaith Brexit ar ddiogelwch a safonau bwyd.**

29 Medi: **Chwe mis tan Brexit** - Nid oes cytundeb eto ynghylch telerau ymadael.

30 Medi: **Gwerthfawrogi staff iechyd a gofal cymdeithasol yr UE** - Llythyr i dawelu ofnau'r gweithlu cyn Brexit.

7 Hydref: **Gwasanaeth cynghori i ddinasyddion yr UE.**



**Yr Wybodaeth Ddiweddaraf am Adael yr Undeb Ewropeaidd:** Briff Ymchwil

## Gogledd Iwerddon

Mae'r Cynulliad yn cyhoeddi **cylchlythyr 'Brexit Brief' a gwybodaeth am Brexit.**

**Cylchlythyr Brexit Brief Medi 2018.**

Mae Gwasanaethau Ymchwil a Gwybodaeth y Cynulliad yn cynnwys gwybodaeth a lincs i adnoddau'n ymwneud â Brexit a Gogledd Iwerddon ar dudalennau gwe **Brexit Hub.**

28 Medi: **Nid oes fawr o amser ar ôl i chi ddweud eich dweud am y Fframwaith Polisi Amaethyddol y dyfodol.**

2 Hydref: **Canlyniadau arolwg llafur ymfudwyr yn sector amaethyddol Gogledd Iwerddon wedi'u cwblhau.**

8 Hydref: **Mae'r ymgynghoriad ynghylch y Cynllun Dynodiadau Daearyddol (GI) newydd yn awr ar agor.**

# Y berthynas rhwng y Deyrnas Unedig ac Iwerddon

25 Medi: Cwestiynau am y **Cyngor Prydeinig-Gwyddelig** ar 22 Mehefin yn Guernsey.

4 Hydref: Atebodd y Gweinidog dros Faterion Tramor gwestiynau am **Drafodaethau Brexit, Materion Brexit, Trafodaethau Brexit, Materion Brexit, a Chynhadledd Rhynglywodraethol Prydain-Iwerddon.**

# Adroddiadau a gyhoeddwyd

## Llyfrgelloedd Tŷ'r Cyffredin a Thŷ'r Arglwyddi

9 Hydref: **Y Mesur Amaethyddiaeth.**

8 Hydref: **Masnachu gyda'r UE yn y dyfodol: Cydnabyddiaeth gilyddol.**

4 Hydref: **Gadael yr Undeb Ewropeaidd: Y Celfyddydau.**

4 Hydref: **Gadael yr Undeb Ewropeaidd: yr effaith ar Gytundeb dydd Gwener y Groglith.**

26 Medi: ***Brexit Unknowns (update)*** – Yr hyn na wyddom eto am broses Brexit neu'r cytundeb i ymadael â'r UE sy'n cael ei drafod ar hyn o bryd. Mae'r papur hwn yn ystyried rhai o'r materion hyn.

24 Medi: **Brexit a rheoleiddio chemegau (REACH).**

## The Conversation

**Chequers vs Canada-plus Brexit trade plans – seven key differences explained**

**How the special migration rules in free trade deals work**



**Yr Wybodaeth Ddiweddaraf am Adael yr Undeb Ewropeaidd:** Briff Ymchwil

## UK in a Changing Europe

**Estimating the trade effects of the Brexit announcement shock**

**The real Brexit deadline is not when you think**

**Brexit and the future of fisheries policy in Northern Ireland**

**What would a no-deal Brexit mean? both experts and voters could be in for a shock**

**Women have been excluded from the Brexit debate**

**Brexit's changes to the UK constitution**

**Would women suffer most from a 'bad' Brexit?**

## (LSE Brexit)

**Other EU countries must reach out to the Britons living there**

**Long read: let's ditch the stereotypes about Britons who live in the EU**

**Brexit and migration: Why do rocket scientists pick strawberries?**

**Race, class and Brexit: how did we get here?**

**Londoners and the rest: how and why geography divides Britons' political influence**

**The end of 'Social Europe'? Brexit poses many dangers for employment relations in the UK**

**Lessons from Norway: The case for a second referendum on Brexit**

**The dismantling of the state since the 1980s: Brexit is the wrong diagnosis of a real crisis**

**Negotiating Single Market access with the EU: institutional lessons from Switzerland**

**A rational backlash against globalisation**

**Lessons from South Korea: What would a hard Brexit mean for British manufacturers?**

**The IEA's Plan A+ for 'free trade' is the product of fanaticism**

**Will the Brexit cloud have a silver lining for conservationists?**

## Arall

**Digesting the Salzburg Summit** (Bruegel)

**Discussing Brexit: In Conversation with Dominic Raab** (Open Europe)

**Brexit negotiations [What Think Tanks are thinking]** (Gwasanaeth Ymchwil Seneddol Ewropeaidd)